



Cynghorydd Phyl Davies
Aelod Portffolio ar Addysg ac Eiddo

Atebwch os gwelwch yn dda /Please reply to:

Gwasanaeth Ysgolion / Schools Service
Cyngor Sir Powys / Powys County Council
Neuadd y Sir / County Hall
Llandrindod Wells
Powys LD1 5LG

Os yn galw gofynnwch am / If calling please ask for

Ffôn / Tel:

Ffacs / Fax:

Ffôn symudol / Mobile:

E-bost / Email:

Eich cyf / Your ref:

Ein cyf / Our ref:

Dyddiad / Date: 13 Ionawr 2021

Annwyl riant/gofalwr

Ymgysylltu â Dysgu – Ionawr 2021

Fel y gwyddoch, ar 8 Ionawr penderfynodd Llywodraeth Cymru newid trefniadau ysgolion oherwydd sefyllfa'r coronafeirws ar hyn o bryd:

“bydd myfyrwyr yn parhau i ddysgu o bell a bydd plant agored i niwed a phlant gweithwyr hanfodol yn gallu manteisio ar ddarpariaeth ar safle'r ysgolion”

<https://llyw.cymru/ysgolion-canllawiau-coronafeirws>

Law yn llaw â'r dysgu, mae canllawiau Llywodraeth Cymru i ysgolion hefyd yn ei gwneud yn glir bod disgwyl i ysgolion darparu'r canlynol:

rhaid i bob plentyn a pherson ifanc fod yn ddiogel a chael eu gweld, eu clywed, eu meithrin a chael cyfle i ddatblygu

<https://llyw.cymru/ysgolion-canllawiau-coronafeirws>

O ganlyniad, bydd ysgolion – yn ogystal â sicrhau bod dysgu (wyneb yn wyneb neu gyfunol) ar waith – yn rhoi trefniadau ar waith i gysylltu â chi ac i weld eich plentyn yn rheolaidd: bydd yr ysgol yn cysylltu â chi ynglŷn â hyn.

Lle nad yw ysgol yn gallu:

- ennyn diddordeb plentyn mewn dysgu
- cadw mewn cysylltiad rheolaidd â phlentyn a'i deulu
- neu weld plentyn

Yn agored a blaengar - Open and enterprising
www.powys.gov.uk



gallant ofyn am gymorth ychwanegol gan y Gwasanaeth Ysgolion i fodloni'r gofynion hynny. Bydd ysgol eich plentyn yn cysylltu â'r Gwasanaeth Ysgolion yn wythnosol

Byddem yn annog pob ysgol a theulu i gydweithio er mwyn sicrhau bod pob plentyn yn cymryd rhan mewn dysgu, yn cyfathrebu'n rheolaidd â'r ysgol ac yn cael eu gweld yn rheolaidd.

Hoffem hefyd fanteisio ar y cyfle hwn i atgyfnerthu'r neges, os yw eich plant yn gallu aros gartref, yna gwnewch eich gorau glas i'w cadw nhw gartref.

Yn gywir,

Cynghorydd Phyl Davies
Aelod Portffolio ar Addysg ac Eiddo